

Diffibrilwyr cardionewidydd y gellir eu mewnblannu a therapi ail-gydamseru cardiaidd ar gyfer arhythmiau a methiant y galon

Mehefin 2014

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

[Caiff diffibrilwyr cardionewidydd y gellir eu mewnblannu](#) eu hargymell fel triniaeth bosibl i bobl sydd wedi cael [arhythmia fentrigol difrifol](#), sydd wedi etifeddu cyflwr ar y galon sy'n gysylltiedig â risg uchel o [farwolaeth sydyn](#), neu sydd wedi cael llawdriniaeth i drin [clefyd cynhenid y galon](#).

Argymhellir diffibrilwyr cardionewidydd y gellir eu mewnblannu a [therapi ail-gydamseru cardiaidd](#) gyda diffibrilwyr neu reoleiddio fel ffyrdd posibl o drin unigolion penodol sydd â [methiant ar y galon oherwydd camweithrediad fentrigol chwith](#) (edrychwch ar y [canllawiau](#) am ragor o wybodaeth).

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych arhythmia neu fethiant y galon a bod eich meddyg yn credu mai diffibriliwr cardionewidydd y gellir ei fewnblannu neu therapi ail-gydamseru cardiaidd, drwy ddiffibrilio neu reoleiddio yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn argymell diffibrilwyr cardionewidydd y gellir eu mewnblannu a therapi ail-gydamseru cardiaidd gan fod y buddiannau a gaiff cleifion yn cyfiawnhau eu costau.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflyrau

Amrywiad yng nghuriad y galon yw arhythmia. Gall fod yn gynt neu'n arafach nag arfer, neu gall fod yn afreolaidd. Weithiau, gall arhythmia atal y galon rhag pwmpio digon o waed o amgylch y corff, gan gynnwys i gyhyr yr ymennydd a'r galon. Gall hyn ddigwydd yn gyflym ac annisgwyl iawn, gan arwain at farwolaeth gyflym, ac fe'i achosir fel arfer gan arhythmiau 'cyflym' yn y fentriglau (siambrau isaf y galon). Problem ar y galon y caiff rhywun ei eni ag ef yw clefyd cynhenid ar y galon.

Gall methiant y galon gael ei achosi gan sawl peth sy'n gwneud y galon yn bwmp llai effeithiol. Pan fydd fentrigl chwith y galon yn pwmpio llai o waed i'r corff oherwydd cyfangiadau llai, fe'i gelwir yn gamweithrediad fentrigol chwith.

Y triniaethau

Dyfais fach a gaiff ei rhoi yn rhan uchaf y frest o dan yr ysgwydd chwith yw diffibriliwr cardionewidydd y gellir ei fewnblannu. Mae gwifrau o'r ddyfais yn mynd i mewn i'r galon er mwyn:

- rheoli cyfradd curiad y galon
- synhwyro curiad calon afreolaidd yn barhaus
- rhoi sioc trydan fach er mwyn sicrhau bod curiad y galon yn dychwelyd i'w rythm arferol (diffibrilio) os bydd angen.

Mae therapi ailgydamseru cardiaidd yn dod â gweithrediadau pwmpio siambrau'r galon yn ôl yr un amser â'i gilydd, er mwyn gwneud y galon yn fwy effeithlon. Caiff dyfais rheoli ei rhoi yn y frest a'i hatodi i siambrau'r galon gan ddefnyddio tair gwifren fach. Gellir hefyd ychwanegu diffibriliwr i'r ddyfais.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- Action Heart, 01384 292233, www.actionheart.com
- Cyngghair Ahythmia, 01789 450 787, www.arrhythmiaalliance.org.uk

- Sefydliad Prydeinig y Galon, 0300 330 3311, www.heartuk.org.uk
- Cymdeithas Cleifion Cardiaidd Prydain, 01223 845845, www.bcpa.co.uk
- SADS UK, 01277 811215, www.sadsuk.org

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-0713-7